

CYNGOR SIR Y FFLINT
10 RHAGFYR 2019

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Robert Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGill, Billy Mullin, Mike Peers, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Wisinger ac Arnold Woolley.

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr: Sian Braun, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, David Evans, Veronica Gay, Ray Hughes, Rita Johnson, Ted Palmer, Michelle Perfect, Aaron Shotton ac Andy Williams.

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr, Uwch Gyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebiadau ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Pwyllgorau.

73. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y dylid newid y gair 'which' am y gair 'who' ar waelod tudalen 5 y cofnodion Saesneg.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Phillips ynglŷn â rhoi pleidlais i rai 16/17 oed, dywedodd y Prif Weithredwr bod yn rhaid i'r cynnig fynd trwy proses Trosolwg a Chraffu yn Llywodraeth Cymru ac na fyddai'r Bil yn cael ei ddeddfu cyn mis Medi/Hydref 2020.

74. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

75. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Wrth gyflwyno ei negeseuon, a oedd wedi cael eu cylchredeg o flaen llaw i'r cyfarfod, tynnodd y Cadeirydd sylw at nifer o ddigwyddiadau, gan sôn yn

arbennig am ymweliad John a Roma Gray o Glwb Pêl-droed Nomadiaid Cei Connah, a Gwobrau Balchder Sir y Fflint a oedd wedi cael eu cynnal yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

76. **DEISEBAU**

Dim.

77. **CYFLWYNIAD Y LLUOEDD ARFOG**

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebiadau eitem a thalodd deyrnged i bawb a oedd wedi bod yn gysylltiedig â chyflawniadau a ddathlwyd trwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Roedd y tîm wedi llwyddo i ennill Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Gweithwyr gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Gwahoddwyd Mike Dodd, a oedd yn gweithio i'r Cyngor fel Swyddog Datblygu Menter Gymdeithasol, i annerch Aelodau am yr amser a dreuliodd yn y Lluoedd Arfog a phwysigwydd y Cyfamod i gyn-filwyr.

I ddilyn cafwyd cyflwyniad am y prosiect "Talacre Ddoe a Heddiw" a helpodd bobl leol, ymwelwyr a phlant ysgol i weld sut le oedd Talacre yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Diolchodd yr Arglwydd Barry Jones i swyddogion am y cyflwyniad a oedd yn gredyd i'r gwaith a wnaethpwyd gan y Cyngor, a thalodd deyrnged i Mike Dodd am ei ymgysylltiad o safbwynt cyn-filwr.

Diolchodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin hefyd i bawb a gymerodd ran ac am y gefnogaeth a ddarparwyd iddo fel Cefnogwr y Lluoedd Arfog yn y Cyngor.

Mynegodd y Cynghorwyr Banks, Roberts, Butler a Legg eu gwerthfawrogiad i Gynghorydd Dunbobbin a'r tîm o swyddogion mewnol ac allanol, a'r plant ysgol am gymryd rhan mewn hanes lleol.

78. **CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2020/21**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2020/21 a oedd yn nodi'r canlynol:

- y rhagolwg ariannol lleol diweddaraf ar gyfer 2020/21;
- y gwaith hyd yma i ddatblygu a chytuno ar ddatrysiadau lleol i lenwi'r 'bwlch' a ragwelir yn y gyllideb ofynnol ar gyfer 2020/21 o fewn y rhagolwg;
- y trefniadau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru a Setliad Dros Dro Llywodraethau Lleol a'r disgwyliadau mewn perthynas â hynny - disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi gyda'i gilydd ar 16 Rhagfyr;
- yr opsiynau lleol sy'n weddill i gyflawni cyllideb gytbwys gyfreithiol ar gyfer 2020/21 ochr yn ochr â'r Setliad; a
- yr amserlen i gwblhau'r gyllideb erbyn Mawrth 2020.

Ers cyhoeddi'r adroddiad, roedd dau gyfarfod ymgynghori olaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cael eu cynnal ac roedd atodiad wedi'i ddiweddarau a'i ddarparu i'r Aelodau a oedd yn cynnwys ymatebion pob un o'r chwech Pwyllgor

Trosolwg a Chraffu. Roedd pob Pwyllgor wedi derbyn crynodeb o'r pwysau o ran costau yn ôl portffolios gwasanaeth. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw beth gwahanol i'r argymhellionyn cael ei gyflwyno i Aelodau yn dilyn cyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Roedd Tabl 1 yr adroddiad yn darparu'r rhagolwg ariannol diweddaraf a oedd wedi cael ei adolygu i gymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn pwysau gan gynnwys rhagolwg gwreiddiol mis Ebrill a phwysau newydd a oedd yn anhysbys neu heb gael eu deall a'u cyfrifo'n iawn cyn hynny. O ganlyniad i'r newidiadau, tyfodd y bwlch yn y gyllideb i £16.355m ym mis Rhagfyr, sef cynnydd o £0.181m.

Roedd yr atebion a oedd ar gael i alluogi'r Cyngor i gydbwyso cyllideb 2020/21 wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

- Cyllid Cenedlaethol;
- Cynlluniau Busnes Portffolios a Chyllid Corfforaethol;
- Trethi ac Incwm Lleol; a
- Newid Sefydliadol.

Wrth roi sylwadau am ddyfarniad cyflog blynyddol athrawon, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y Cyngor yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn talu'r dyfarniad cyflog yn llawn yn 2020/21. Ar sail hynny, roedd modd tynnu £0.726m o'r rhagolwg gan roi ffigwr adolygedig o £15.629m. Byddai cadarnhad yn cael ei geisio gan LIC ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer dyfarniadau cyflog blynyddol rhwng nawr a'r camau olaf o osod y gyllideb.

Darparodd fanylion llawn arbedion ac incwm o gynlluniau busnes portffolios, arbedion cyllid corfforaethol, treth ac incwm lleol a newid sefydliadol.

Byddai cyfuniad o arbedion ac incwm portffolios cyllid corfforaethol, incwm sy'n deillio o lefel ddangosol o gynnydd yn Nhreth y Cyngor, a'r 'difidend' o adolygiad actiwaraid Cronfa Bensiynau Clwyd a grynhoir yn yr adroddiad, yn cynhyrchu cyfraniad sylweddol o £8.164m at y gyllideb.

Yr unig opsiynau lleol sydd ar ôl i'w hadolygu er mwyn adeiladu ar y cyfraniad, yn ddibynnol ar ganlyniad cyllideb LIC oedd (1) adolygiad pellach o gyfraniadau cyflogwyr Cronfa Bensiynau Clwyd mewn cysylltiad ag Actiwari'r Gronfa; (2) rhannu pwysau costau ysgolion gyda'r ysgolion eu hunain; (3) set gyfyngedig o ddarpariaethau cyllid corfforaethol eraill megis arenillion rhagweledig o Dreth y Cyngor a chyfraddau adfer Gostyngiad Person Sengl; (4) gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer codi ffioedd comisiynu darparwyr gofal cymdeithasol wrth i drafodaethau blynyddol barhau; a (5) lefel uwch na'r dybiaeth weithiol o 5% ar gyfer Treth y Cyngor.

Roedd lefel arian wrth gefn y Cyngor a oedd heb ei glustnodi yn isel ac nid oedd modd gwneud cyfraniad arall yn ddiogel i helpu i osod y gyllideb.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod arbedion effeithlonrwydd o £92M wedi'i ganfod dros y 9 mlynedd diwethaf gyda chefnogaeth Aelodau, ac roedd y targed ar gyfer 2020/21 dros £16M. Roedd y ffigyrau'n cynnwys cynnydd enghreifftiol o 5% yn Nhreth y Cyngor. Roedd ysgolion yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran y posibilrwydd o orfod rhannu costau – sefyllfa oedd yn ddewis olaf. Er y

disgwylir gwelliant yn y Setliad, roedd y Cyngor yn dal i orfod dod o hyd i gyllid ychwanegol i helpu i glustnodi arian yn erbyn pwysau a fyddai'n codi yn ystod y flwyddyn, ac i helpu i ddychwelyd arian wrth gefn i lefel ddiogel.

Pe bai'r Cyngor yn gallu dod trwy 2020/21, byddai angen canolbwyntio ar y tymor canolig wedyn.

Roedd disgwyl mwy o fanylion yn y Setliad eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol a byddai'r manylion hynny ar gael y dydd Llun canlynol. Byddai gwybodaeth yn cael ei hanfon at Aelodau cyn gynted ag sy'n bosibl gydag asesiad o'r goblygiadau i Sir y Fflint.

Ailadroddodd nad oedd modd dod o hyd i unrhyw arbedion pellach heb wneud gwasanaethau yn annïogel, sefyllfa a gefnogwyd trwy gydol yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Rhoddodd sylwadau am yr effaith ryfeddol ar berfformiad Cronfa Bensiynau Clwyd a'r adolygiad actiwaraid, a gynhelir bob tair blynedd, a fyddai'n gweld o leiaf £2m yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at leihau'r bwlch yn y gyllideb.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Arweinwyr Grwpiau am lofnodi'r llythyr a anfonwyd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Hydref, a oedd yn amlinellu'r effaith ar Dreth y Cyngor pe nai bai gwell Setliad yn cael ei roi, a'r ffaith na fyddai gan y Cyngor unrhyw ddewis ond galw am ymyrraeth ariannol gan LIC pe na bai'r Cyngor yn gallu cydbwysu'r gyllideb yn ddiogel.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod disgwyl gwell Setliad ar gyfer 2020/21 ond gofynnodd a fyddai lefelau cyllid presennol i lywodraethau lleol yn codi digon i Sir y Fflint a chynghorau eraill i'w galluogi i osod cyllidebau cytbwys, diogel a chyfreithiol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd effeithiau newidiadau yn y Dosbarthiad Fformiwla blynyddol hefyd yn peri pryder. O dan y dadansoddiad dosbarthiad diweddaraf, roedd disgwyl i Sir y Fflint fod ar ei cholled net yn sylweddol. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a LIC i osod 'terfyn isaf', a oedd yn ffordd o gapio lefelau colled i gynghorau gydag effaith dosbarthu negyddol, fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Amlinellwyd yr amserlen ar gyfer camau olaf y broses o osod y gyllideb flynyddol yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Cynghorydd Roberts sylwadau am yr arbedion syfrdanol o £92M a oedd wedi'u canfod dros y 9 mlynedd diwethaf. Diolchodd i Aelodau o'r Siambr am y gwaith a wnaethpwyd gan y gweithgor trawsbleidiol a ddaeth i benllanw gyda llythyr wedi'i lofnodi ar y cyd a'i anfon at LIC a oedd yn dangos y gallai'r gwaith trawsbleidiol uno'r Cyngor. Yn ei swydd fel Arweinydd y Cyngor, roedd hefyd wedi llofnodi llythyr gan Arweinwyr chwe Chyngor gogledd Cymru, yn mynegi eu pryderon ar y cyd am sefyllfa'r gyllideb.

Mae wedi bod yn gyfnod heriol a diolchodd hefyd i swyddogion am y gwaith a wnaethpwyd ar y gyllideb, a'r cyngor a ddarparwyd. Diolchodd hefyd i bawb a oedd yn gweithio ar Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd a oedd wedi gwneud cyflawniadau rhyfeddol.

Ar ôl y Cabinet yr wythnos nesaf, byddai gwybodaeth yn cael ei hanfon at Aelodau am oblygiadau'r Setliad.

Symudodd yr argymhellion yn yr adroddiad, a chynigodd argymhelliad arall sef "diolch i'r rheiny ym Mhwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd am eu cyflawniad rhyfeddol o ddod â'r cyllid i fyny i'r lefel bresennol".

Eiliodd y Cynghorydd Banks yr argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Roberts. Ailadroddodd holl eiriau y Cynghorydd Roberts, yn enwedig y diolch i'r gweithgor trawsbleidiol a'r swyddogion.

Teimlai'r Cynghorydd Richard Jones y dylid cadw opsiynau'n agored nes bod manylion y Setliad wedi'u derbyn ar 16 Rhagfyr. Rhoddodd sylwadau am y £593m ychwanegol y byddai LIC yn ei dderbyn, a byddai disgwyl i Sir y Fflint dderbyn 2% o hwnnw. O ran disgwyliad y Cyngor i LIC dalu dyfarniad cyflog athrawon yn llawn ar gyfer 2020/21, gofynnodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol pam yr oedd yn credu bod hynny'n ddiogel, ac awgrymodd y byddai'n fwy darbodus aros am fanylion y Setliad yn gyntaf.

Yn dilyn sylwadau'r Arweinwyr, gofynnodd a oedd cyfarfod wedi'i gynnal rhwng arweinwyr y chwe Cyngor yng ngogledd Cymru a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

Gofynnodd a fyddai modd rhoi ystyriaeth i beidio ag ad-dalu'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd eleni - byddai hynny'n ychwanegu rhywfaint o werth, ac o ran y dosbarthiad fformiwla blynyddol, a oedd amcangyfrif ar gael o'r effaith ariannol posibl yn Sir y Fflint.

Yn argymhelliad rhif 4, teimlai y dylid tynnu'r geiriau 'ac yn derbyn' gan y byddai hynny'n galluogi'r Cyngor i gadw ei opsiynau ar agor.

Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod WLGA hefyd o'r farn y dylai LIC ddyfarnu cyflogau athrawon yn llawn yn flynyddol. Roedd y cyngor eleni yn gydnaws â'r cyngor yn y gorffennol.

O ran peidio ag ad-dalu cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd eleni, yr addasiadau yn y papur oedd y cyllid o gronfeydd wrth gefn y flwyddyn flaenorol felly roedd angen dod o hyd i'r arian o rywle; dim ond o'r gronfa arian at raid neu'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd y gellid cael hwnnw. Roedd y cronfeydd arian at raid wedi cyrraedd y lefelau isaf erioed sef hanner yr hyn yr oeddent y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cyfarfod gydag Arweinwyr y chwe Cyngor yng ngogledd Cymru. Nid oedd llythyr wedi'i dderbyn yn ymateb i'r un a lofnodwyd ac a gyflwynwyd gan Arweinwyr Grwpiau, ond nodwyd y byddai LIC yn cyfathrebu ar y cyd trwy WLGA unwaith y byddai'r gyllideb wedi cael ei setlo.

Tynnodd sylw at y cyngor a roddodd yn gynharach sef nad oedd unrhyw opsiynau diogel eraill y gellid eu harchwilio – cytunwyd ar hynny gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Hyd yn oed pe bai rhywbeth yn cael ei gyflwyno

rŵan, byddai unrhyw arbedion yn methu â chael eu gwneud mewn pryd ar gyfer cyllideb 2020/21.

O ran y fformiwla ariannu, esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ei fod yn gyfuniad o boblogaeth a newidiadau i setiau data ac yn ôl y wybodaeth byddai'r elfen boblogaeth yn cael ei chyflwyno'n raddol, ond o bosibl nid yr elfen arall. Roedd y boblogaeth yn rhan fach iawn o lle byddai'r Cyngor yn methu allan – yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, y cyfanswm oedd £858k a gallai hwnnw godi. Roedd WLGA wedi gofyn i Weinidogion osod 'terfyn isaf' o 0.5% fel na fyddai unrhyw Gyngor yn colli mwy na 0.5% o'u Grant Cynnal Refeniw.

Yn dibynnu ar y bwlch terfynol ac o dybio'r gwaethaf, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones y gallai'r Cyngor fod yn edrych ar gynnydd o rhwng 11% ac 14% yn Nhreth y Cyngor. Er ei fod yn derbyn bod hynny'n annhebygol, o ystyried yr Hysbysiad o Gynnig a drafodwyd yn y Cyngor Sir ym mis Mehefin 2019, teimlai y byddai'n annoeth i Aelodau ddweud ei fod yn cael ei dderbyn, sef y pwynt a wnaeth yn gynharach ynglŷn ag argymhelliad rhif 4. Dywedodd y Prif Weithredwr mai Aelodau ddylai benderfynu ar y geiriad, ond roedd angen i'r cyngor a roddwyd gan swyddogion gael ei ddeall a byddai'n aros.

Fel cynigydd ac eilydd yr argymhellion, roedd y Cynghorwyr Roberts a Banks yn derbyn y dylid tynnu'r geiriau "ac yn derbyn" fel yr awgrymodd y Cynghorydd Richard Jones.

Diolchodd y Cynghorydd Heesom i'r Aelodau am y newid i argymhelliad rhif 4. Roedd yn falch o weld bod swyddogion wedi dod yn agosach at y cysyniad o osod Treth Y Cyngor o dan y terfyn o 5%. O ran arbedion mewn portffolios, teimlai nad oedd y drafodaeth am wariant yn ddiwedd i'r mater a bod adegau pan fo opsiynau posibl ar gael, gan gyfeirio at enghraifft o drafodaeth a oedd wedi digwydd yn gynharach y diwrnod hwnnw yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ynglŷn â pha mor aml y caiff biniau du gwastraff cyffredinol eu casglu. Teimlai bod meysydd yng nghyllideb pob portffolio lle byddai angen i Aelodau ystyried toriadau. Ni fyddai'n cefnogi ariannu'r bwlch trwy Dreth y Cyngor a theimlai y byddai'n ddyletswydd ar Aelodau i ystyried gwneud toriadau mewn gwasanaethau.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod llawer o waith moderneiddio wedi cael ei wneud ar draws y Cyngor ac y byddai unrhyw waith pellach yn gymhleth. Dywedodd eto y byddai gweithredu unrhyw ostyngiadau pellach yn arwain at lefelau anniogel, gan gynnwys dyletswyddau gorfodol y Cyngor ac nid oedd unrhyw un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi nodi unrhyw beth mawr i'w adolygu.

Diolchodd y Cynghorydd Peers i'r swyddogion am eu holl waith ac eto i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd am y gwaith ardderchog yr oedd wedi'i wneud. Dan arweiniad y Cynghorydd Roberts, dywedodd bod gwahanol bleidiau gwleidyddol ac Arweinwyr Grwpiau wedi dod at ei gilydd a bod trafodaethau am y gyllideb wedi bod yn gyfeillgar. Pe bai'r canlyniad yn un positif, roedd yn gobeithio bod hynny oherwydd cyfraniadau'r holl Gynghorwyr. Diolchodd i'r Cynghorydd Richard Jones am ei gynnig ar argymhelliad rhif 4, gan ei fod yn cadw pethau yn agored ac yn hyblyg gan nad oedd modd gwybod beth oedd sefyllfa'r Cyngor nes bo'r Setliad wedi'i dderbyn. Roedd yn ddiolchgar bod y

ffigyrau yn yr adroddiad yn gweithio ar gynnydd dros dro o 5% yn Nhreth y Cyngor. Cafodd ei galonogi gan rai o'r opsiynau yn yr adroddiad, a'r ffaith bod ystod y gwerth ariannol rhwng £1m a £2.9m, a gofynnodd a fyddai modd darparu crynodeb o'r ffigyrau hynny ar ryw bwynt a beth oedd y posibilrwydd o'u cyflawni. I gadw'r ysbryd o gydweithio, gobeithiai y gallai'r Cyngor ganolbwyntio ar gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor, a cheisio cydweithio er lles y Cyngor a threthdalwyr y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y ffigyrau a geisiwyd gan y Cynghorydd Peers ar gael ac y byddent yn cael eu rhyddhau yr wythnos ganlynol ar ôl derbyn y Setliad.

Rhoddodd y Cynghorydd Ellis sylwadau am y pump opsiwn lleol a oedd yn weddill fel y manylir yn yr adroddiad, a gofynnodd a fyddai rhif (4) "gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer codi ffioedd comisiynu darparwyr gofal cymdeithasol wrth i drafodaethau blynyddol barhau" yn cynnwys cartrefi nyrsio? Os felly, gallai arwain at golli darpariaeth. O ran y set gyfyngedig o ddarpariaethau cyllid corfforaethol arall, megis Treth y Cyngor ac arenillion a ragwelir, gofynnodd am fwy o wybodaeth am gyfraddau adfer y gostyngiad person sengl h.y. a allai gynnwys gostwng cyfradd y gostyngiad person sengl, gan y gallai hynny arwain at gynnydd mewn digartrefedd. Ni fyddai'n cefnogi cynnydd o fwy na 5% yn Nhreth y Cyngor.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod y cyfeiriad at hyd at £2.9M yn yr ystod o opsiynau yn berthnasol i opsiynau 1-4 yn unig, ac nid yr opsiwn ar Dreth y Cyngor. Ni fwriedir gwneud unrhyw beth newydd o ran cyfraddau adfer gostyngiad person sengl. O ran ffioedd comisiynu, roedd yr hyn a gynigai'r Cyngor yn seiliedig ar yr asesiad a gynhaliwyd. Pe bai'r Cyngor yn cyd-drafod yn dda â darparwyr gofal mae'n bosibl y byddai swm bach ar gael, ac na fyddai unrhyw ddarparwr mewn perygl.

Yn dilyn pleidlais, cafodd yr argymhellion, gan gynnwys y newid i argymhelliad 4 a'r argymhelliad ychwanegol, eu derbyn.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid nodi'r rhagolwg a ddiweddarwyd ar gyfer 2020/21. Roedd y rhagolwg yn cynnwys pwysau costau a oedd wedi cael eu hadolygu a'u hardystio gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol;
- (b) Y dylid nodi bod y cam cyntaf o ddatrysiadau i ateb gofynion y gyllideb a oedd yn dod i gyfanswm o £8.164m wedi'i gwblhau. Roedd y datrysiadau portffolios gwasanaeth ac ariannu corfforaethol penodol wedi cael eu hadolygu a'u hardystio gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol (mae cam cyntaf y datrysiadau yn cynnwys cyfradd dros dro o 5% i Dreth y Cyngor. Roedd lefel Treth y Cyngor yn fater a gadwyd yn ôl ar gyfer y Cyngor llawn ac ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud nes y cyfarfod ym mis Chwefror. Byddai lefel Treth y Cyngor a argymhellir yn amrywio yn ôl y bwlbch yn y gyllideb yng nghyfnod olaf y gyllideb);
- (c) Y dylid nodi'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru;

- (d) Bod y Cyngor yn nodi'r ystod gyfyngedig o opsiynau lleol sydd ar gael i greu cyllideb gytbwys ochr yn ochr â chanlyniad y Setliad;
- (e) Y dylid nodi'r amserlen ar gyfer camau olaf y broses o osod y gyllideb flynyddol; a
- (e) Y dylid diolch i'r rheiny sy'n gysylltiedig â Phwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd am eu cyflawniad anhygoel i ddod â'r cyllid i fyny i'r lefel bresennol.

79. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2018/19

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2018/19 i roi sicrwydd i'r Cyngor bod y swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn cyflawni ei rôl gyfansoddiadol.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Tachwedd lle cafodd ei gefnogi.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Heesom.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu.

80. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL A LLYGREDIGAETH A CHYNLLUN YMATEB I DWYLL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth ac adroddiad y Cynllun Ymateb i Dwyll a ysgrifennwyd er lles gweithwyr, Aelodau, y cyhoedd, sefydliadau a busnesau sy'n delio gyda'r Cyngor a ddisgwylir i weithredu ag uniondeb hefyd.

Amlinellodd y Strategaeth ymrwymiad y Cyngor i atal a chanfod twyll a'i bolisi 'dim goddefgarwch' tuag at weithredoedd twyll a llygredigaeth tebyg.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Tachwedd lle cafodd ei gefnogi.

Cynigiodd y Cynghorydd Heesom gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Hardcastle.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth ddiwygiedig; ac

(b) Y dylid cymeradwyo'r Cynllun Ymateb i Dwyll diwygiedig.

81. **POLISI RHANNU PRYDERON**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad y Polisi Rhannu Pryderon a oedd yn esbonio sut mae'r Polisi yn galluogi gweithwyr, Aelodau ac unigolion trydydd parti (partneriaid, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr, cyflenwyr, contractwyr, gan gynnwys eu gweithwyr) y Cyngor i godi pryderon sydd ganddynt, a rhoddodd sicrwydd ynghylch cyfrinachedd a diogelu.

Roedd yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn wrth godi pryder a sut y byddai'r Cyngor yn ymateb. Rhoddodd y polisi enghreifftiau o'r mathau o bryderon y gellid eu codi.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Tachwedd lle cafodd ei gefnogi, gydag un newid sef cynnwys Aelodau lleol fel 'person a ragnodir' i adrodd pryder. Darperir hyfforddiant yn y Flwyddyn Newydd mewn perthynas â hynny.

Awgrymodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin y gellid cynnal yr hyfforddiant cyn cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a fyddai'n helpu i godi lefelau presenoldeb.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am eglurhad nad oedd yr Heddlu yn 'berson a ragnodir' a chadarnhawyd hynny. Esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod y Polisi Rhannu Pryderon yn un eang ac mae'n bosibl y byddai mater yn codi a fyddai'n gorfod cael ei adrodd wrth yr Heddlu. Fodd bynnag, yn gyntaf byddai'n briodol codi'r materion hynny gyda'r bobl a enwir yn y polisi gan fod materion posibl y byddai angen mynd i'r afael â nhw yn y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Kevin Hughes.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r Polisi Rhannu Pryderon fel y'i diwygiwyd.

82. **RHYBUDD O GYNNIG**

Cyn dechrau'r eitem, gofynnodd y Cynghorydd Attridge am eglurhad o'r rheolau ynglŷn â dadleuon yn y cyfnod cyn yr etholiad. Dywedodd bod Hysbysiad o Gynnig wedi cael ei gyflwyno gan ei blaid ychydig fisoedd yn gynharach ond roedd wedi cael ei oedi oherwydd natur y pwnc sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r ffaith ei fod o natur wleidyddol yng nghanol ymgyrch etholiad genedlaethol. Gofynnodd a oedd yr un rheolau'n berthnasol i Lywodraeth Cymru gan eu bod wedi dadlau ynghylch BIPBC ar sawl achlysur yn ddiweddar. Dywedodd hefyd yr ymddengys bod Cynghorau eraill yng Nghymru yn dadlau ar faterion gwleidyddol.

Esboniodd y Prif Weithredwr bod y cyngor a roddwyd i Aelodau yn gadarn a bod cyfyngiadau cyfreithiol sy'n benodol i lywodraeth leol yn rhan annatod o ddeddfwriaeth llywodraeth leol. Roedd Llywodraeth Cymru yn lywodraeth sydd ar waith ac sydd â gwahanol set o gyfyngiadau a chaniateir iddo ddal ymlaen â'i fusnes arferol. Nid oedd yr Hysbysiad o Gynnig y cyfeiriwyd ato yn cael ei gynnwys gan ei fod yn cyffwrdd ar feysydd a oedd yn ymrwymadau maniffesto o bwys yn y GIG.

Ychwanegodd ei fod wedi codi y byddai rhannu arferion da yn llesol yng Nghymru gan fod pobl yn gwneud gwahanol ddyfarniadau ond yn y pen draw, roedd y cyngor a roddir i Aelodau yn cael ei roi er mwyn eu hamddiffyn. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda BIPBC i ofyn iddyn nhw fynyachu cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Ionawr ac roedd hyn wedi'i sbarduno oherwydd yr oedi yn y dadlau ynglŷn â'r Hysbysiad o Gynnig, am y rhesymau a esboniwyd eisoes.

Diolchodd y Cynghorydd Heesom i'r Prif Weithredwr am y cyngor a diolchodd i'r swyddogion am y ffordd yr oeddent wedi rheoli'r etholiad aeaf.

Siaradodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin o blaid ei Hysbysiad o Gynnig, sef:

“Bod y Cyngor hwn yn penderfynu:

Ei gwneud yn ofynnol i hysbysebu o flaen llaw bob arddangosiad tân gwyllt cyhoeddus yn Sir y Fflint, gan alluogi trigolion i gymryd camau i ragofalu am eu hanifeiliaid a phobl ddiamddiffyn.

Hyrwyddo'n weithredol ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl ddiamddiffyn. Cynnwys y camau y gellir eu cymryd i leihau risgiau.

Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i'w hannog i ddefnyddio unrhyw bwerau sydd ganddynt i liniaru unrhyw effeithiau negyddol y gall cynnal arddangosiadau tân gwyllt ei gael ar anifeiliaid a phobl ddiamddiffyn.

Annog arddangosiadau lleol i ddefnyddio tân gwyllt tawel ar gyfer arddangosiadau cyhoeddus, “Ban the Bang”.

Dywedodd bod yr Hysbysiad o Gynnig yn dod ar y cyd â'r RSPCA a'u hymgyrch genedlaethol. Bu cynnydd o dros 12% mewn galwadau o gwmpas Noson Tân Gwyllt a chredwyd y byddai tynhau cyfyngiadau ar werthiant tân gwyllt yn y cyfnod yn arwain at 5 Tachwedd yn helpu yn fawr. Dim ond yn ystod yr wythnos cyn Noson Tân Gwyllt y caiff tân gwyllt ei werthu yn Seland Newydd.

Hoffai weld gostyngiad yn lefel uchaf y sŵn o 120 desibel i 90 desibel a fyddai'n cyd-fynd â lefelau gwledydd eraill a byddai hyn yn annog cynhyrchwyr i ddylunio a chynhyrchu tân gwyllt tawelach neu hollol ddistaw. Roedd tref yn yr Eidal eisoes wedi dechrau defnyddio arddangosiadau distaw yn unig.

Cyfeiriodd at achos yn ei ward o orfod rhoi ceffyl i gysgu wythnos ar ôl digwyddiad gyda tân gwyllt nad oedd yn rhan o arddangosiad cyhoeddus.

Soniodd hefyd am y trallod y gall tân gwyllt ei achosi i bobl ddiameddiffyn a'r problemau y mae tân gwyllt yn ei greu iddyn nhw.

Eiliodd y Cynghorydd Attridge yr Hysbysiad o Gynnig.

Teimlai'r Cynghorydd Carver y gallai'r Hysbysiad o Gynnig fynd ymhellach gan mai'r arddangosiadau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau oedd arddangosiadau preifat lle mae tân gwyllt swllyd iawn yn cael eu tanio, ac nid oeddent yn gyfyngedig i Noson Tân Gwyllt a'r penwythnosau blaenorol a dilynol, nac ar Nos Calan. Gellid cyflwyno is-ddeddf fel bo tân gwyllt ond yn cael eu tanio ar ddiwrnodau penodol yn unig.

Rhoddodd y Cynghorydd Attridge sylwadau am y trallod a achosir i anifeiliaid anwes a dywedodd bod yr Hysbysiad o Gynnig hwn yn bwynt cychwyn i fynd i'r afael â'r broblem. Pe na bai unrhyw welliannau yn digwydd o ganlyniad i hyn, gellid cyflwyno Hysbysiad o Gyflwyniad arall i'r Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones bod tanio tân gwyllt mewn lle cyhoeddus neu ar y stryd yn anghyfreithiol, fodd bynnag nid oedd yn anghyfreithiol i danio tân gwyllt trwy gydol y flwyddyn yn unol â chyfyngiadau amser a holodd a fyddai modd gweithredu is-ddeddf.

Dywedodd y Cynghorydd Ellis y dylai is-ddeddf ymwneud â gosod cyfyngiadau ar werthu tân gwyllt i aelodau o'r cyhoedd i'w defnyddio, a'r ffordd y maent yn cael eu gwerthu. Rhoddodd sylwadau am ddigwyddiadau yn ei ward lle roedd tân gwyllt wedi cael eu tanio gan y cyhoedd ar y stryd. Roedd y sŵn yn dychryn pensiywyr lleol ac roedd hynny'n annerbyniol.

Esboniodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod yr hyn y gellid ei gyflawni gydag is-ddeddfau yn gyffredinol yn eithaf cyfyngedig ac os ceisir cael is-ddeddf, byddai angen rhoi cyngor penodol pellach i Aelodau. Fodd bynnag, fel ag yr oedd, yr Hysbysiad o Gynnig a oedd gerbron Aelodau oedd yn cael ei ystyried.

Cytunodd y Cynghorydd Kevin Hughes gyda phopeth a oedd yn cael ei ddweud a teimlai bod un peth ar goll, sef y gair 'addysg' a dywedodd bod angen i'r cyhoedd gael eu haddysgu sut i ddefnyddio tân gwyllt yn briodol trwy gyfrwng y dulliau mwyaf addas.

Dywedodd y Cynghorydd Owen Thomas ei fod yn cynrychioli tri pentref a oedd wedi trefnu Nosweithiau Tân Gwyllt, ac roedd pob un wedi cael cymeradwyaeth y Cyngor Cymuned. Roeddent i gyd wedi'u trefnu a'u hysbysebu yn dda ac wedi'u hyswirio'n ddigonol a gobeithiai na fyddai'r penderfyniad heddiw yn cael effaith arnyn nhw.

Cytunodd y Cynghorydd Cunningham gyda'r holl sylwadau ond dywedodd bod yn rhaid cadw mewn cof bod llawer o bobl yn tanio tân gwyllt mewn modd cyfrifol ac na ddylen nhw gael eu cosbi. Teimlai mai at y bobl anghyfrifol y dylid cyfeirio'r is-ddeddf hon ac roedd o blaid rhyw fath o fesurau i reoli gwerthiant tân gwyllt.

Dywedodd y Cynghorydd Hinds bod angen targedu'r cynhyrchwyr hefyd.

Dyweddod y Cynghorydd Rosetta Dolphin mai ei nod oedd cael tân gwyllt tawelach gan na fyddai hynny'n llesteirio'r mwynhad o'u gwylio.

Roedd Aelodau o blaid yr Hysbysiad o Gynnig, fel yr oedd wedi'i ysgrifennu, ac o'i roi i bleidlais, cafodd ei dderbyn.

PENDERFYNWYD:

Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin yn cael ei gefnogi.

83. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

84. CWESTIYNAU

Dim.

85. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol ac roedd deunaw o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 p.m. a daeth i ben am 4.15 p.m.)

.....
Y Cadeirydd